

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 15 Chwefror 2018

Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin, 6pm

Yn bresennol:

Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y FfMLI
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y FfMLI
Jillie Gardiner (JG)
Caroline Evans (CE)
Geoff Williams (GW)
Richard Leggett (RL)

Ysgrifennydd (dros dro)

Lucy Pugh (LP) - Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad Dros Dro CSC

Ymgynghorwyr / Arsyllwyr / Siaradwyr / Aelodau'r Cyhoedd

Cliff Cleaton (CC) - Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Dros Dro CSC
Martin Murray (MM) - Cynrychiolydd Cynnal CSC
Cyng. Peter Hughes-Griffiths (PHG) - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol CSC
Paul Barrett (PB) - Cerddwyr Llanelli
Glyn Lloyd-Jones (GLJ) - Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymddiheuriadau:

Aelodau:

Jane Evans (JE)
David Stacey (DS)
Ed Percy (EP)

Ymgynghorwyr / Arsyllwyr:

Sam Palmer (SP) - CSC
Ian Jones - CSC
Neil Thomas - CSC

Yn absennol:

Glyn Evans (GE)
Keith Morgan (KM)

*Ystyr CSC yn y cofnodion hyn yw Cyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	GWEITHREDU
Eitemau 1 - Croeso a Chyflwyniad Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 - Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau Dim.	
Eitem 3 - Ymddiheuriadau Derbyniwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau.	

<p>Eitem 4 - Timau Cynnal a Chyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad CSC</p> <p>CC: Mae Stephen Pilliner wedi cymeradwyo'r swydd Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad heddiw, ac mae'r cynnig bellach wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr.</p> <p>MH: Mae'n siomedig bod hyn wedi cymryd cymaint o amser - mae'r materion cyfreithiol yn pentyrru.</p> <p>KB: Yn bryderus y gallai'r oedi achosi i staff adael eu swyddi.</p> <p>RL: A yw PHG yn craffu ar effeithiolrwydd yr adran?</p> <p>MH: Mae'r gyllideb ar gyfer staff wedi'i neilltuo ac ar gael. Yn pryderu y bydd y gyllideb yn gostwng y flwyddyn nesaf. Am godi hyn eto yng nghyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth.</p>	MH
<p>Eitem 5 - Adroddiad ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>LP: Adroddiadau bellach yn dangos materion ar sail statws y llwybr a'r flwyddyn gofnodi.</p> <p>RL: Mae 33% o'r materion yn bodoli ers dros 5 mlynedd, felly hyd yn oed gyda'r holl staff yn bresennol, nid oedd yr adran yn cyflawni ei rhwymedigaethau.</p> <p>Nifer sylweddol o broblemau'n gysylltiedig ag arwyddbyst - mae pobl yn amharod i gerdded ar lwybrau sydd heb arwyddbyst.</p> <p>GW: Bydd llawer o arwyddbyst ar briffyrdd yn cael eu difrodi wrth dorri cloddiau - byddai'n werth ystyried arwyddbyst llai neu farciau ffordd. Gwirio a oes isafswm uchder ar gyfer arwyddbyst neu ffordd arall effeithiol o farcio llwybrau.</p> <p>MM: Dylid nodi nad yw'r Cyngor yn gosod arwyddbyst ar lwybrau nad ydynt ar agor.</p> <p>RL: Mae nifer y Materion Cynnal a Chadw wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf, ond mae nifer y Materion Cyfreithiol wedi cynyddu. MH i gylchredeg cymhariaeth o'r ffigurau (cyflawnwyd 16/02/18).</p> <p>Nid yw adroddiadau Pathwatch wedi cael eu mewnbynnu i CAMS eto, felly mae cyfanswm y materion yn dal i gael eu tanadrodd.</p> <p>MM: Wedi dosbarthu rhestr o'r llwybrau y buom y gwnaed gwaith arnynt ers y FfMLI diwethaf. Cafwyd trafodaeth ynghylch gwaith wedi'i gynllunio ar bontydd, a chadarnhaodd MM na fyddai'r Cyngor yn gwario arian i osod pont newydd heb sicrhau bod gweddill y llwybr ar gael.</p>	MM
<p>Eitem 8 – Y newyddion diweddaraf am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)</p> <p>CC: Mae Martin Dolan yn ystyried yr adborth oddi wrth aelodau'r FfMLI. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Carys Drew (CNC) ar gyfer 2 Mawrth.</p> <p>MH: A wnaeth Capita ymgynghori â CNC - does dim cofnod o hynny. Nid RL na PB ychwaith yn cofio derbyn ymgynghoriad drwy'r Cerddwyr.</p> <p>KB: Nid oedd yn glir iawn mewn gwirionedd mai ymgynghoriad oedd yr ymgynghoriad.</p>	

<p>JG: Mae'r niferoedd isel a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn creu'r argraff nad oedd gan bobl unrhyw ddiddordeb, ond mae'n bosibl nad yw hynny'n wir.</p> <p>CC: Ni chafwyd ymateb enfawr i'r ymgynghoriad cyntaf ar y CGHT ychwaith.</p> <p>MH: Efallai nad e-bost yw'r ffordd gywir o gynnal ymgynghoriadau.</p> <p>RL: Cytuno - mae'n ymddangos fel pe bai gwahoddiad i ddigwyddiad ymgynghori yn gweithio'n well.</p> <p>Ar y cyfan, cytunwyd nad oedd unrhyw fudd mewn ymgynghori eto - yn well bwrw ymlaen beth bynnag.</p> <p>MH: Byddai'n hoffi i'r drafft terfynol gael ei anfon i'r FfMLI. A ofynnwyd i PHG ysgrifennu'r Cyflwyniad i'r CGHT?</p> <p>PHG: Na, mae'n bosibl mai'r Cyng. Hazel Evans fydd yn gwneud hynny.</p> <p>RL: Yn cwestiynu'r wybodaeth ariannol yn y CGHT. A yw'r ffigurau a gyflwynwyd ar gael mewn gwirionedd?</p> <p>MH: Dylai'r FfMLI gyflwyno adroddiad ar y CGHT cyn i'r Bwrdd Gweithredol ei gymeradwyo. Bydd angen cyfarfod i drafod pan fo'r drafft terfynol ar gael.</p>	
<p>Eitem 6 - Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</p> <p>Gwiriwyd a chytunwyd ar y cofnodion, gyda diwygiadau.</p> <p>Bydd LP yn gofyn am gyfieithiad ac yn eu cyhoeddi ar y wefan.</p>	LP
<p>Eitem 7 - Materion yn Codi o'r Cofnodion</p> <p>Amh. - bydd y cyfan yn cael ei drafod o dan Eitemau'r Agenda.</p>	
<p>Eitem 9 - Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>MH: Mae Simon Charles wedi gyrru ymateb. Mae Llwybr Tywi yn cael ei ddatblygu i fodloni gofyniad yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.</p> <p>Nodwyd bod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi'i lunio dros bedair blynedd yn ôl, ac nad oedd rhai o'r ffigurau fel pe baent yn gyson.</p> <p>Arwynebu: wedi meddwl y byddai'r arwyneb yn debyg i ludw, ond ymddengys bellach mai'r hyn a ddefnyddir fydd bitwmen wedi'i selio.</p> <p>PB: Mae gwefan y Cyngor wedi cael ei diweddarau ac erbyn hyn yn cynnwys mwy o fanylion am y llwybr, gan gynnwys y cynllun i osod arwyneb bitwmen wedi'i selio arno: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/llwybr-dyffryn-tywi/#.W6JTsfZFxes</p> <p>MH: Mae gan y FfMLI amheuan o hyd ynghylch cost y prosiect ac ynghylch faint o ddefnydd a wneir o'r llwybr.</p> <p>KB: Mae llawer o bobl nad ydynt yn gwerthfawrogi bod arian LICT yn dod o gronfa ariannu ar wahân i ffyrdd er enghraifft.</p>	

MH: A ellir gwahodd Simon Charles a Sam Palmer i'r cyfarfod nesaf am 7pm.	JL
LP: Bydd yn darparu dolenni cyswllt i Ganllawiau Arfer Da ac Astudiaethau Achos o lwybrau cyd-ddefnyddio.	LP
Eitem 10 - Y Diweddaraf am Brosiectau	
10a) Fferm Wynt Brechfa	
MH: Darllenodd y newyddion diweddaraf gan Jason Lawday yn uchel.	
Cwestiynodd pwy oedd y "rhanddeiliaid" ac a oedd hynny'n cynnwys y FfMLI? JL i ofyn.	JL
A fydd y Rheolwr Amgylchedd ac Ecoleg newydd yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus o gwbl? JL i gadarnhau.	JL
Beth yw ardaloedd "a lesiwyd"?	JL
A ellir darparu manylion pellach am ryngwyneb ariannu CNC? GLJ i wirio.	GLJ
Mae mapiau'n cael eu diweddarau bydd paneli "rydych chi yma" ychwanegol yn cael eu gosod. Bydd yn gwirio cynnydd.	MH
JG: Nid yw'r tyrbinau'n bodloni'r canllawiau ar gyfer pellter cwmpo ar y traciau coedwigaeth sydd yn rhan o'r tir Mynediad Agored. Yn pryderu ynghylch atebolrwydd.	
GLJ: Bydd yn gwirio hyn gyda CNC ac yn adrodd yn ôl wrth MH. Bydd hefyd yn anfon cylchlythyr ariannu CNC ymlaen.	GLJ
10b) Adolygiad Teithiau'r Sir	
MM: Wedi cynnal cyfarfod yn ddiweddar â Huw Parsons i drafod Llwybrau i'w Hyrwyddo. Mae gwefan Darganfod Sir Gâr bellach wedi cael ei diweddarau ac yn arddangos gwybodaeth dda. Mae gwaith yn parhau i gwblhau llwybrau eraill.	
Mae llwybr Bannau Sir Gaer yn dal i gael ei hyrwyddo. Mae angen golygu neu ddileu hyn. MM i drefnu gyda Huw Parsons.	MM
JG: Mae taflen newydd i ymwelwyr yn cael ei hyrwyddo gan Darganfod Sir Gâr ("Diwrnodiau Allan") sydd yn cynnwys map o ansawdd gwael nad yw'n dangos y ffyrdd.	
MH: Eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf: edrych ar y daflen / map i ymwelwyr.	
Am drafod ansawdd gwael y map gyda PHG (cyflawnwyd 16/02/18).	
Darllenodd y newyddion diweddaraf gan Huw Parson am Farchnata a'r Cyfryngau.	
Mae'n biti bod beicio yn flaenoriaeth i'r adran, a bod cerdded a marchogaeth yn cael eu hanwybyddu.	
CE: Blynyddoedd thema LIC - 2018 yw "Blwyddyn y Môr". 2019 yw "Blwyddyn Darganfod".	
10c) Morfa Bychan	
MH: Darllenodd y newyddion diweddaraf gan Jason Lawday yn uchel.	

Beth yw'r cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y Gorchymyn Rheoli Traffig? Trafodir hyn ymhellach yng Nghyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd. Cadw ar yr agenda er mwyn cael y newyddion diweddaraf yng nghyfarfod nesaf y FfMLI.

Am anfon John McEvoy i ofyn am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, ac yn cefnogi GRhT tymhorol parhaol (y gellir ei orfodi rhwng mis Ebrill a mis Medi, gan gynnwys y misoedd hynny, bob blwyddyn) ([cyflawnwyd 16/02/18](#)).

10d) Nant Gronw

Dim cynnydd ers y FfMLI diwethaf. JL i roi'r newyddion diweddaraf yng nghyfarfod nesaf y FfMLI.

10e) Gelli Aur

GW: Heb agor eto. Aildrefnu ymweliad Cymdeithas Ddinesig Llandeilo.

RL: Rhif cyswllt: 01558 669020. Dylai gael ei ailagor yn fuan.

Eitem 11 - Cau Croesfannau Network Rail

MH: Darllenodd y newyddion diweddaraf gan Jason Lawday yn uchel.

KB: A ellid awgrymu wrth NR y dylent ddarparu pontydd yn lle cau'r croesfannau?

Eitem 12 - Strategaeth Marchogaeth

KB: Mae hydoedd y llwybrau ceffylau rhwng gwahanol CGHTau yn amrywio, ac ni ellir esbonio hyn yn hawdd. Wedi creu taenlen o'r anghysondebau.

Nid oes ffordd hawdd ar hyn o bryd i weld pa lwybrau sydd ar agor.

Bwriedir cynnwys y Strategaeth Marchogaeth yn y CGHT.

Hoffai hyrwyddo llwybrau marchogaeth, efallai gydag ymglymiad Huw Parsons. Ceir dau lwybr ym Mrechfa a fyddai'n addas iawn i'w hyrwyddo.

MH: A fyddai modd gwneud cais am gyllid gan Gronfa Gymunedol Brechfa?

GW: A allem gael taflen ar gyfer y llwybr sy'n cael ei hyrwyddo? Gyda gwybodaeth am barcio?

MH: A yw'r FfMLI yn cefnogi'r syniad gael Strategaeth Marchogaeth? – YDYM

KB: Byddai'n hoffi cynnal arolwg i weld faint o arian y gallai twristiaeth marchogaeth ei ddenu i'r economi leol.

Eitem 13 - Gwirfoddoli

MM: Cyfarfu MM a PB yn ddiweddar i drafod gwirfoddoli. Mae rhai materion ar ôl i'w datrys, ee, darparu cyfarpar diogelu personol, ond trafodaeth gadarnhaol ar y cyfan.

<p>GW: Hoffai Cerddwyr Dinefwr gael eu cynnwys hefyd. Byddai arolygu a chlririo llystyfiant ysgafn yn waith delfrydol i wirfoddolwyr.</p> <p>KB: A byddai gan farchogion ddiddordeb hefyd.</p> <p>MH: Gallai fod yn fuddiol ystyried cytundebau nawdd - ee, cysylltu â Charlies.</p> <p>JG: Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB) wedi trefnu Diwrnod Agored ar gyfer gwirfoddoli. JG i anfon y manylion i MM.</p>	<p>JG</p>
<p>Eitem 14 - Cytundeb Dirprwyo PCBB</p> <p>CC: Wedi'i gyflwyno i'r adran Gyfreithiol ac erbyn hyn yn disgwyl cael ei lofnodi.</p> <p>MH: Bydd yn gofyn yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth pam nad yw'r FfMLI wedi cael ei gynnwys yn y Cytundeb, a bydd yn gofyn i Eifion Jones hefyd (o PCBB) a gafodd eu FfMLI hwy eu cynnwys.</p>	<p>MH</p>
<p>Eitem 15 - Adroddiad Blynyddol Drafft y FfMLI 2017</p> <p>MH: Dylai aelodau'r FfMLI anfon unrhyw sylwadau pellach i MH.</p> <p>Diweddariad 18/02/18: Yr adroddiad terfynol bellach wedi'i anfon i CSC i'w gyhoeddi ar y wefan.</p>	
<p>Eitem 16 - Ail-ethol Aelodau'r FfMLI</p> <p>Cytunwyd y dylai aelodau presennol y FfMLI barhau yn eu swyddi i ymdrin â materion a oedd yn dal heb eu datrys, tra bo'r broses recriwtio yn cael ei chynnal.</p> <p>MH: A ellir cychwyn y broses recriwtio cyn gynted ag sy'n bosibl?</p> <p>CE: Awgrymu y dylid anfon gwahoddiad i'r cynrychiolydd "Cerdded Iach", ac am wneud hynny.</p>	<p>CC CE</p>
<p>Eitem 17 - Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth</p> <p>MH: Y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar 16 Ebrill.</p>	
<p>Eitem 18 - Eitemau ar yr Agenda Nesaf</p> <p>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei rannu'n ddwy: A - ethol aelodau. B - cyfarfod arferol.</p> <p>MH: <u>Cyfarfod Cadeiryddion FfMLl</u>au - 7 Rhagfyr. Am rannu nodiadau a thrafod yng nghyfarfod nesaf y FfMLI.</p> <p>RL: <u>Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig</u> - Nid yw'r trefniadau i ofalu am gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig yn ddigonol - dylid cynnwys hyn ar yr agenda. MH i ddod â map a rhestr o'r cilffyrdd hynny.</p>	<p>MH MH</p>

<p>MH: <u>Taflen ymwelwyr "Diwrnodiau Allan"</u>.</p>	
<p>Eitem 19 - Unrhyw Fater Arall</p> <p><u>Mynyddoedd Cambria</u> - Edrych ar y statws Parc Natur. MH i rannu nodiadau.</p> <p><u>Llwybrau Beicio Mynydd Brechfa</u></p> <p>CE: Y llwybrau mynydd mewn cyflwr gwael, ac mae angen gwneud gwaith arnynt. CNC sydd yn gyfrifol am eu cynnal.</p> <p>GLJ: Bydd yn holi CNC ac yn adrodd yn ôl wrth MH.</p>	<p>MH</p> <p>GLJ</p>
<p>Eitem 20 - Y cyfarfod nesaf</p> <p>14 Mehefin 2018 - Canolfan Tywi, Llandeilo</p> <p>Lleoliad, dyddiad ac amser wedi'u cyhoeddi ar y wefan: http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cynqor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/</p>	